Dysgu berfau / pethau yr ydym yn eu gwneud



Y ffordd orau o ddysgu berfau i'ch plentyn yw trwy ddangos a gofyn cwestiynau tra'n chwarae, gwneud pethau a sgwrsio.

Dyma awgrymiadau...

- Chwarae gemau
- Defnyddio pethau bob dydd
- Tynnu ac edrych ar luniau
- Gwybod beth i'w ofyn

Chwarae gemau

Charades 1



- Chwiliwch am luniau berfau ar y we, neu 'actiwch' y ferf er mwyn i'ch plentyn ddysgu enwi gwahanol ferfau e.e crïo, cropian, chwerthin.
- Pan mae eich plentyn wedi dysgu'r berfau, chwaraewch y gêm (mae'n well os oes tri neu fwy yn chwarae).
- Dangoswch lun berf / actiwch y ferf i'ch plentyn yna gofyn iddo / iddi actio'r ferf i weddill y chwaraewyr.
- Y chwaraewyr i ddyfalu pa ferf sy'n cael ei hactio.

Charades 2



Mae'r gêm hon ychydig yn anoddach gan y bydd eich plentyn angen actio dau beth.

- Casglwch luniau berfau a lluniau pethau sy'n mynd efo'r ferf e.e. bwyta a banana.
- Trafodwch y lluniau efo'ch plentyn (pam eu bod yn mynd efo'i gilydd) a meddyliwch am ffyrdd o'u hactio.
- Pan mae eich plentyn yn barod, chwaraewch y gêm.

Defnyddio pethau bob dydd



Enghraifft 1

- Disgrifiwch yr hyn y mae eich plentyn yn ei wneud e.e. "Rwyt ti'n llyfu hufen iâ".
- Actiwch y ferf
- Gofynnwch wrth eich plentyn, "Beth wyt ti'n ei wneud efo hufen iâ?"
- Os yw eich plentyn yn methu ateb, rhowch ddewis e.e. "Wyt ti'n yfed, llyfu ynteu cnoi hufen iâ?"



Enghraifft 2

- Dangoswch bêl i'ch plentyn gan ofyn, "Beth wyt ti'n ei wneud efo pêl?"
- Os yw eich plentyn yn ateb "taflu" gofynnwch, "Beth arall wyt ti'n gallu ei wneud efo pêl?" (rowlio, cicio, bownsio)
- Gofynnwch wrth eich plentyn enwi tri pheth y mae'n gallu ei wneud efo pêl.

Tynnu ac edrych ar luniau

Dangos...

- Chwiliwch am luniau 'berfau' ar y we, neu defnyddiwch luniau sydd gennych ar eich ffôn. Gwnewch albym 'berfau'.
- Edrychwch ar y lluniau efo'ch plentyn ac enwi'r ferf ymhob llun e.e. Mae'r hogan yn bwyta.
- Gofynnwch i'ch plentyn ddangos llun e.e. Nofio

Beth...

- Chwiliwch am luniau berfau ar y we, neu defnyddiwch luniau sydd gennych ar eich ffôn. Gwnewch albym 'berfau'.
- Edrychwch ar y lluniau efo'ch plentyn ac enwi'r ferf ymhob llun e.e. Mae'r hogyn yn canu.
- Dangoswch lun a gofynnwch e.e. Beth mae'r hogyn yn ei wneud yn y llun?

Gwneud...

- Tynnwch luniau o'ch plentyn yn gwneud pethau e.e. gofynnwch iddo / iddi neidio, rhedeg, sgipio, cuddio.
- Tynnwch luniau o'ch plentyn yn ystod gweithgareddau e.e. edrych ar y teledu, chwarae efo Lego, reidio beic.
- Edrychwch ar y lluniau efo'ch plentyn a gofynnwch iddo / iddi eu disgrifio e.e. Rydw i yn...

Gwybod beth i'w ofyn

Defnyddiwch unrhyw gyfle yn ystod y dydd i helpu eich plentyn ddysgu berfau. Does dim angen adnoddau arbennig, dim ond gofyn y cwestiynau iawn. Dyma enghreifftiau o'r hyn y gallwch ei ofyn yn y gegin.

Berfau yn y gegin

"Beth wyt ti'n ei wneud efo jwg?"

llenwi, tywallt, mesur

"Dangosa rhywbeth yr wyt ti'n ei ddefnyddio i dorri."

siswrn, cyllell

"Pa rai sydd dim yn cael eu defnyddio wrth fwyta?"

jwg, tebot, siswrn, llwy bren

"Rwyt ti'n defnyddio hon i gymysgu, beth ydi hi?"

llwy bren